

Pryd ar Glud: mae angen codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a'i fuddion i gynorthwyo ataliaeth mewn gofal cymdeithasol i oedolion

Y Dr Angeliki Papadaki, Y Dr Miranda Armstrong, Y Dr Paul Willis a'r Athro Ailsa Cameron, Prifysgol Bryste

Ynglŷn â'r ymchwil

Mae mwy na 15 miliwn o oedolion yn Lloegr yn byw gydag anghenion gofal a chymorth oherwydd cyflwr neu anabled hirdymor. Mae angen help ar lawer o'r oedolion hyn gyda'u siopa am fwyd a pharatoi prydau bwyd. Gyda'r system gofal cymdeithasol mewn argyfwng, ac na roddir digon o amser neilltuedig bob tro i ofalwyr a gyflogir trwy asiantaethau gofal cymdeithasol i goginio pryd maethlon, gall gwasanaethau Pryd ar Glud fod yn hanfodol i'r unigolion hyn, sy'n dymuno parhau i fyw yn eu cymunedau ond sydd angen cymorth i wneud hynny.


Arweiniodd ymchwilwyr o'r Ysgol Astudiaethau Polisi gyfweiliadau manwl gyda 28 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Pryd ar Glud ac aelodau teulu defnyddwyr Pryd ar Glud oedd wedi'u hatgyfeirio at y gwasanaeth, a recriwtiwyd trwy bedwar darparwr gwasanaeth ledled Lloegr. Mae'r ymchwil hon yn ychwanegu at y dystiolaeth gyfyngedig o ganfyddiadau defnyddwyr gwasanaeth Pryd ar Glud yn Lloegr, a dyma'r ymchwil gyntaf i archwilio profiadau ynghylch y gwasanaethau o safbwynt atyfeirwyr teuluol. Yn dilyn yr astudiaeth hon, cymerodd chwe chyfranogwr sydd â phrofiad uniongyrchol o wasanaeth Pryd ar Glud (defnyddwyr gwasanaethau a'u hatgyfeirwyr teuluol) ran mewn pedwar gweithdy, a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2023, i gyd-gynhyrchu dau ffeithlun i godi ymwybyddiaeth ynghylch Pryd ar Glud:

- Gellir defnyddio ein ffeithlun 'Pryd ar Glud – ydy'r gwasanaeth hwn yn addas ar eich cyfer?' gan feddygon teulu, timau rhyddhau o'r ysbyty, a gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol a chymunedol, fel adnodd i lywio penderfyniadau atgyfeirio i wasanaethau Pryd ar Glud. Gellir ei ddefnyddio hefyd gan ddarparwyr gwasanaethau fel adnodd i godi ymwybyddiaeth ynghylch buddion Pryd ar Glud ar eu gwefannau a'u deunyddiau cyhoeddusrwydd.
- Mae ein ffeithlun "Arwyddocâd Pryd ar Glud" yn amlygu buddion gwasanaethau Pryd ar Glud i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd. Gellir defnyddio'r adnodd hwn gan ddarparwyr Pryd ar Glud pan fyddant yn chwilio am gyllid ar gyfer parhau neu wella eu gwasanaethau. Gellir hefyd ei ddefnyddio hefyd gan gomisiynwyr a gwnaethurwyr polisi fel adnodd i lywio penderfyniadau ynghylch ailgyflwyno, neu barhau i ariannu, gwasanaethau Pryd ar Glud.

Argymhellion polisi

- Dylai timau gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau iechyd a thai gydnabod Pryd ar Glud fel adnodd ataliol hanfodol i gynnal lles corfforol a meddyliol ac annibyniaeth oedolion ag anghenion gofal a chymorth.
- Mae angen i'r Llywodraeth genedlaethol gefnogi awdurdodau lleol, a darparwyr gwasanaethau eraill, gyda'r modd ariannol sydd ei angen i redeg gwasanaethau Pryd ar Glud yn llwyddiannus.
- Dylai darparwyr Pryd ar Glud ystyried gwneud eu gwasanaethau'n yn fwy adnabyddus, cefnogi atgyfeiriadau i'r gwasanaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gweithwyr gofal cymdeithasol, gofalwyr cyflogedig a di-dâl, yn ogystal ag aelodau teulu oedolion ag anghenion gofal a chymorth.
- Dylai darparwyr Pryd ar Glud ystyried gwella eu strategaethau codi ymwybyddiaeth i fynd i'r afael â rhagdybiaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

Gallai Pryd ar Glud gefnogi oedolion ag anghenion gofal i barhau i dderbyn maeth, yn gysylltiedig yn gymdeithasol, a byw yn eu cartref a'u cymunedau eu hunain am amser hwy.



Credyd Delwedd: ©Cyngor Dinas Bryste

Canfyddiadau allweddol

- Mae ein hymchwil wedi awgrymu pedwar budd hanfodol ynghylch gwasanaethau Pryd ar Glud:

a) Maent yn helpu i gael derbyn pryd o fwyd bob dydd: Ychydig iawn o baratoi sydd ei angen ar y pryd o fwyd, os o gwbl, gan ei gwneud hi'n hawdd i unrhyw oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth gael pryd blasus, maethlon bob dydd. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael â diffyg maeth.

b) Maent yn helpu i leihau unigedd cymdeithasol: Fel arfer yr un gyrwyr sy'n dosbarthu prydau bwyd i ddefnyddiwr y gwasanaeth. Mae'r cyswllt cymdeithasol hwn a gweld wyneb cyfarwydd yn helpu i wella lles meddyliol.

c) Maent yn helpu i amlygu unrhyw bryderon: Gall gyrwyr sy'n dosbarthu'r prydau bwyd wirio nad oes unrhyw bryderon diogelwch a lles. Gallai hyn gefnogi defnyddwyr Pryd ar Glud i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain am amser hwy.

d) Gallant hyrwyddo annibyniaeth: Gallai derbyn Pryd ar Glud helpu i atal neu oedi'r broses o symud i ofal preswyl. Gallai hyn arbed miliynau o bunnoedd i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r GIG.

Er bod llwybrau atgyfeirio canfyddedig amrywiol (e.e. trwy weithwyr cymdeithasol a chymorth, yn ogystal â gofaluwr a gyflogir trwy asiantaethau gofal cymdeithasol), roedd aelodau'r teulu'n tybio mai nhw oedd y rhai mwyaf tebygol o atgyfeirio, a threfnu, Pryd ar Glud i rywun. Gallai amlygu argaeledd gwasanaethau Pryd ar Glud, a'u buddion, i

feddygon teuluol, timau rhyddhau o'r ysbty a gweithwyr cymdeithasol a gofaluwr cymunedol gynyddu atgyfeiriadau proffesiynol i wasanaethau.

Amlygwyd sawl stereoteip ynghylch Pryd ar Glud gan gyfranogwyr, gan gynnwys y rhagdybiaeth mai ar gyfer 'pobl hyn' yn unig y bwriedir y gwasanaeth neu fod y bwyd yn atgoffa pobl o 'brydau bwyd ysgol'. Gallai'r rhagdybiaethau hyn atal pobl rhag defnyddio'r gwasanaeth Pryd ar Glud. Yn eu strategaethau codi ymwybyddiaeth, gallai darparwyr Pryd ar Glud fynd i'r afael â'r stereoteipiau hyn trwy amlygu bod Pryd ar Glud ar gyfer unrhyw unigolyn na all baratoi eu prydau bwyd eu hun, waeth beth fo'u hoedran, a darparu tystebau am ansawdd y prydau bwyd sydd ar gael, fel yr adroddwyd gan ein cyfranogwyr ymchwil.

- Roedd ein gwaith cynharach yn archwilio canfyddiadau darparwyr Pryd ar Glud yn awgrymu nad yw llawer o bobl a allai elwa o'r gwasanaeth yn gwybod bod Pryd ar Glud yn bodoli. Awgrymodd ein hymchwil fod defnyddwyr y gwasanaeth a'u hatgyfeirwyr teuluol wedi clywed am Bryd ar Glud yn gyffredinol, ond nad yw pobl yn cofrestru gwybodaeth o'r fath nes bod angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth mewn gwirionedd. Gallai'r diffyg ymwybyddiaeth hyn ynghylch gwasanaethau amharu ar y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dylai darparwyr Pryd ar Glud ystyried gwella eu gweithgareddau cyhoeddusrwydd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth eang o fodolaeth y gwasanaeth, ond hefyd ymwybyddiaeth o fuddion ehangach y gwasanaeth.

Gwybodaeth bellach

Papadaki A et al (2023) [‘The service, I could not do without it...’: A qualitative study exploring the significance of Meals on Wheels among service users and people who refer them to the service](#). Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Gymuned

Papadaki A et al (2023) [‘Accessing Meals on Wheels: a qualitative study exploring the experiences of service users and people who refer them to the service’](#). Rhagargraffiadau 2023, 2023090310.

Papadaki A et al (2022) [‘It’s not just about the dinner; it’s about everything else that we do’: A qualitative study exploring how Meals on Wheels meet the needs of self-isolating adults during COVID-19](#). Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Gymuned

[Meals on Wheels: raising awareness of the service through co-produced knowledge translation tools](#) (Blog)

Gellir dod o hyd i'r ddau ffeithlun ar y ddwy dudalen nesaf. [Gellir lawrlwytho'r rhain \(mewn fformat jpeg a pdf\)](#)

Cysylltu â'r ymchwilwyr

Y Dr Angeliki Papadaki, Athro Cysylltiedig mewn Maeth Iechyd Cyhoeddus, Canolfan Ymarfer Corff, Maeth a Gwyddorau Iechyd, Ysgol Astudiaethau Polisi, Prifysgol Bryste: angeliki.papadaki@bristol.ac.uk

Mae'r briff polisi hwn yn ymchwil annibynnol gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ysgol Ymchwil Iechyd ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol. Mae'r safbwyntiau a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yn rhai'r awduron ac nid o reidrydd rhai'r NIHR SSCR, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd neu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.